# CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod arbennig o bell a gynhaliwyd 11 Hydref, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Councillor Jayne Norman (Maer); Councillors Julie Aviet, Vincent Bailey, Rhiannon Birch, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Janice Charles, Millie Collins, Geoff Cox, Robert Crowley, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Sally Hanks, Nic Hodges, Gwyn John, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Leighton Rowlands, Ruba Sivagnanam, John Thomas, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams and Mark Wilson.

## 443 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 444 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Andrew R.T. Davies, Anthony Hampton, Hunter Jarvie, Dr. Ian Johnson and Marguerita Wright.

## 445 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 446 DATGANIAD CYFRIFON 2020/21 –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad yn dweud mai diben yr adroddiad oedd gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chytuno ar y Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol ar gyfer 2020/2021

Archwilio Cymru oedd y corff a oedd yn gyfrifol am ymgymryd â gwaith archwilio allanol y Cyngor ac o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), roedd y Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn gweithio tuag at fodloni terfynau amser statudol cynharach ar gyfer cau'r cyfrifon. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gau'r cyfrifon erbyn 31

Mai 2021 gydag Archwilio Cymru’n gofyn am i’r archwiliad gael ei gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2021. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, roedd y dyddiadau wedi'u diwygio gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gwblhau eu cyfrifon ar gyfer 2020/2021 erbyn 31 Awst 2021 gyda'r bwriad bod Archwilio Cymru yn cwblhau eu harchwiliad erbyn 30 Tachwedd 2021.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn falch iawn o adrodd i'r Cyngor fod y cyfrifon drafft wedi'u trosglwyddo i Archwilio Cymru ar 30 Mehefin a bod y cyfrifon archwiliedig felly gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo. Bwriad yr Archwilydd Penodedig oedd llofnodi datganiadau ariannol 2020/21 ar 12 Hydref 2021.

Hysbyswyd y Cyngor ymhellach fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi datgan, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, fod staff y Cyngor wedi cymryd rhan lawn yn y broses archwilio ac wedi cefnogi'r archwiliad yn effeithiol drwy ddarparu cyfrifon drafft o ansawdd da gyda phapurau gwaith ategol ac ymateb i ymholiadau archwilio yn amserol.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i gydnabod gwaith tîm Archwilio Cymru wrth gwblhau'r archwiliad a ddywedodd ei fod wedi galluogi'r Cyngor i ystyried y cyfrifon yn y cyfarfod. Tynnodd yr Arweinydd sylw'r Cyngor hefyd at y ffaith bod cyfrifon grŵp wedi'u cynhyrchu ar gyfer 2020/21 a oedd yn cynnwys y flwyddyn lawn gyntaf o fasnachu ar gyfer y Big Fresh Catering Company a oedd yn eiddo i'r Cyngor yn gyfan gwbl. Roedd Archwiliad Cymru hefyd wedi cytuno ar gyflwyno Cyfrifon y Grŵp.

Yn yr adroddiad i'r Cyngor, roedd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi datgan bod y Datganiadau Ariannol:

- wedi rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bro Morgannwg a Grŵp Cyngor Bro Morgannwg ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; ac

- eu bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Bwriad yr Archwilydd Penodedig hefyd oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y Datganiadau Ariannol ar ôl i Swyddogion perthnasol y Cyngor ddarparu Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol wedi'i lofnodi. Dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (fel y'u diwygiwyd), bu'n rhaid cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon cyn 30 Tachwedd ac wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor. Yn ogystal, roedd angen i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor a'i lofnodi a'i ddyddio gan Arweinydd y Cyngor.

Hysbysodd yr Arweinydd y Cyngor ymhellach ar 23 Medi roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried eitem ar yr agenda o'r enw "Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2020/21 - Adrodd i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu" gydag Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â'r Datganiad Cyfrifon fel y'u cyflwynwyd iddynt.

Daeth yr Arweinydd i'r casgliad drwy symud cymeradwyaeth yr argymhellion fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad gerbron y Cyngor.  Cafodd hyn ei eilio’n briodol gan y Cynghorydd Lis Burnett.

Ategodd y Cynghorydd Carroll fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sylwadau'r Arweinydd a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i Archwilio Cymru a swyddogion Archwilio Mewnol am eu gwaith wrth baratoi'r cyfrifon a dywedodd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi bod yn gytûn i argymell cymeradwyo'r Cyfrifon.  Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at baragraffau penodol yn yr adroddiad lle cyfeiriwyd at yr effaith yr oedd y pandemig wedi'i chael ar adnoddau'r Cyngor.

Mewn ymateb, diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Carroll am ei sylwadau a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i Dîm Cyllid y Cyngor am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon.

Nid oedd unrhyw anghydweld â chynnig yr Arweinydd a

PHENDERFYNWYD –

(1) NODI adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(2) NODI, llofnodi a dyddio’r Llythyr Cynrychiolaeth i Archwilio Cymru ar gyfer 2020/21 gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.

(3) CYMERADWYO’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (o fewn y Datganiad Cyfrifon) ar gyfer 2020/21 i’w gymeradwyo a’i lofnodi a’i ddyddio gan Arweinydd y Cyngor.

(4) CYMERADWYO Datganiad Cyfrifon 2021/21 a’i lofnodi a’i ddyddio gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod aelodau'n cael gwybod am ganlyniadau'r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21.

(2) Bod y llythyr cynrychiolaeth wedi'i lofnodi yn cael ei ddychwelyd i Archwilio Cymru.

(3) Bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i lofnodi a'i ddyddio yn ôl y gofyn.

(4) Bod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo cyn y dyddiad cau.